# County Council (C)

Man Cyfarfod
**Council Chamber - County Hall, Llandrindod Wells**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Mercher, 9 Mawrth 2016**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC22- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION | CC23- 2016 |
|---|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.
(Tudalennau 5 - 10)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB | CC24- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau sy'n ywmenud ag eitemau sydd i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC25- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoediadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD | CC26- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth yr Arweinydd.

| 6. | NEGES BRIFFIO GAN Y PRIF WEITHREDWR | CC27- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn neges briffio oddi wrth y Prif Weithredwr.

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **TROSGLWYDDIADAU YN Y GYLLIDEB** | **CC28- 2016** |

Ystyried trosglwyddiadau yn y gyllideb y mae angen cymeradwyaeth y Cyngor ar eu cyfer.
(Tudalennau 11 - 12)

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | **DATGANIAD BLYNYDDOL ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW DIGWYGIEDIG AR GYFER 2015/16** | **CC29- 2016** |

Ystyried Datganiad Blynyddol ynglyn â'r Isafswm Darpariaeth Refeniw Diwygiedig ar gyfer 2015/16.
(Tudalennau 13 - 22)

| | | |
|---|---|---|
| **9.** | **PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2016-2017** | **CC30- 2016** |

Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2016-2017.
(Tudalennau 23 - 42)

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | **DEDDF TAI (CYMRU) 2014 - PREMIYMAU TRETH Y CYNGOR** | **CC31- 2016** |

Ystyried gosod premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo fu'n wag am gyfnod hir ac eiddo nad oes pobl yn byw ynddo.
(Tudalennau 43 - 94)

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **DATGANIAD POLISI CYFLOG** | **CC32- 2016** |

Derbyn ac ystyried datganiad polisi cyflog 2016-2017.
(Tudalennau 95 - 116)

| | | |
|---|---|---|
| **12.** | **PENODIAD AELODAU I BWYLLGORAU GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL AC WEDI'U CYMERADWYO GAN Y SWYDDOG MONITRO** | **CC33- 2016** |

Nodi'r penodiad canlynol a gafodd ei wneud dan y grwp Democratiaid Rhyddfrydol a'I gymeradwyo gan y Swyddog Monitro dan bwer dirprwyo cyffredinol dirprwyo a ganiatawyd gan y Cyngor ar 16 Mai 2013:

Penodwyd y Cynghorydd Sir Kathryn Silk i'r Pwyllgor Safonau yn lle'r Cynghorydd Sir Maureen Mackenzie.

| | | |
|---|---|---|
| **13.** | **CWESTIWN I'R AELOD PORTFFOLIO Â CHYFRIFOLDEB AM BRIFFYRDD ODDI WRTH Y CYNGHORYDD SIR KELVYN CURRY** | **CC34- 2016** |

Clywais gan elusen ganser leol, the Bracken Trust, yn ddiweddar a oedd yn bryderus fod CSP wedi cynyddu ei ffioedd am gau ffyrdd dros dro o £130 i £330, sef cynnydd o fwy na 150%. Mae hyn yn golygu bod crocbris yn cael ei godi am gynnal un o'r achlysuron codi arian mwyaf poblogaidd o amgylch y llyn yn Llandrindod, a bydd hefyd yn effeithio ar allu elusennau eraill i godi arian mewn gwahanol fannau ym Mhowys.

Mewn ymateb i nifer o'r cwestiynau a ofynnais i'r Aelod Portffolio yn ddiweddar, fe ddywedodd na chynhaliwyd asesiad effaith pan gododd cost y gorchmynion dros dro fis Hydref 2015, felly sut wyddom ni a fydd y cynnydd yma yn arwain at golli mwy a mwy o refeniw, gan y gallai o rwystro elusennau rhag cynnal yr achlysuron yma o gwbl? Hefyd, ni wyddom pa effaith fydd ar allu codi arian yr elusennau hyn ar adeg pan mae Cyngor Sir Powys yn dibynnu fwyfwy ar grwpiau cymunedol lleol a'r Trydydd Sector i redeg y digwyddiadau yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt yn flaenorol.

Mae'r Aelod Portffolio wedi dweud ei fod yn disgwyl y bydd y ffioedd newydd yn cynhyrchu incwm o £12,920 eleni, o'i gymharu â £6,120 y llynedd. Fodd bynnag heb gynnal asesiad effaith, mae'n amhosibl i ni wybod hyn. Efallai na fyddwn hyd yn oed yn cyrraedd £6,120! Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae'n eithaf posibl y bydd Cyngor Sir Powys yn gweld lleihad yn ei incwm wrth i grwpiau cymunedol lleol a'r Trydydd Sector benderfynu peidio â threfnu'r math yma o achlysur codi arian, a bydd y sefydliadau eu hunain yn bendant yn colli incwm wrth i'r math yma o achlysur codi arian ddod yn fwyfwy aneconomaidd (hynny yw, bydd yn costio mwy i'w redeg nag y bydd yn ei godi). A dweud y gwir, mae'n *double whammy*, a bydd pawb ar ei golled!

O ystyried hyn, a'r ffaith nad yw llawer o gynghorau Cymru yn codi am gau ffordd ar gyfer achlysur cymunedol neu nid-er-elw (er bod ambell gyngor yn gwneud hynny), oni fyddai'n ddoeth i'r Aelod Portffolio ddychwelyd i'r hen strwythur ffioedd ar gyfer cau ffyrdd dros dro nes y bydd wedi cynnal asesiad effaith llawn? Yna, gellid datblygu ffordd synhwyrol ymlaen, ar sail tystiolaeth ac nid dyfaliad.
.

(Tudalennau 117 - 118)

| 14. | STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS | CC35- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn ac ystyried y Datganiad Strategaeth ar Reoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol.
(Tudalennau 119 - 146)

14.1. **Eitem wedi'i Heithrio**

Mae'r Swyddog Monitro wedi penderfynu bod yr eitemau canlynol yn destun categori 3 y Rheolau Trefn Mynediad at Wybodaeth. Ei farn o ran prawf lles y cyhoedd (wedi ystyried darpariaethau Rheol 11.8, Rheolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor), oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth ynglyn â materion ariannol neu fusnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod yn cadw'r wybodaeth honno).

Roedd o'r farn bod diddordeb y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy pwysig na diddordeb y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. Gofynnir i Aelodau ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar brawf lles y cyhoedd, a rhaid iddynt benderfynu

ar hyn wrth ystyried eithrio'r cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod.

14.2. **Atodiad Cyfrinachol**

Ystyried yr atodiad cyfrinachol i'r adroddiad.
(Tudalennau 147 - 156)

| **Cynhelir y cyflwyniad canlynol am 2.00 p.m.** |
|---|

| | | |
|---|---|---|
| **15.** | **CYFLWYNIAD GAN SIMON PRINCE, PRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED POWYS** | **CC36- 2016** |